



Ysgol Tryfan

18/12/13

Annwyl Riant / warcheidwad

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen i bob un ohonoch ar ddiwedd tymor prysur fel hwn - a diolch yn fawr iawn am eich cefnogaeth gyson i Ysgol Tryfan. Bu'n dymor hir a phrysur a hoffwn longyfarch cymaint o ddisgyblion ar lwyddiannau ac ymdrechion clodwiw dros y pedwar mis diwethaf. Annheg fyddai tynnu sylw at lwyddiannau unigol yma ond hoffwn ddatgan fy mod yn falch o'm holl ddisgyblion.

Bu nifer fawr o lwyddiannau nodedig yn ddiweddar a hynny mewn meysydd mor amrywiol â nofio, siarad cyhoeddus a jazz. Ar hyn o bryd rydym yn y broses o ddiweddarau gwefan yr ysgol gyda rhai o'r uchafbwyntiau hyn gan gynnwys clipiau sain o'r gerddoriaeth wych a glywsom yn y Gadeirlan nos lau ddiwethaf yn y Gwasanaeth Carolau. Hoffwn ddiolch o galon i Mr Dylan Baines am ei waith proffesiynol yn sicrhau'r recordiad sain safonol hwn y gallwn yn awr ei rannu â chi. Ceir nifer fawr o luniau diweddar hefyd yn yr albwm lluniau swmpus.

Ond ni allaf ddiweddu'r llythyr hwn wrth reswm heb sôn am adroddiad arolwg Estyn yr ysgol. Arolygwyd yr ysgol gan dîm o Estyn, Hydref 7-11 2013, ac mae'n ddyletswydd pleserus i mi erbyn hyn eich hysbysu bod yr adroddiad hwn bellach yn gyhoeddus ar wefan Estyn. Bydd yr adroddiad hefyd ar gael yn ddwyieithog ar wefan ein hysgol ni. Mae gennym nifer fawr o gopiâu papur o'r adroddiad yn yr ysgol a gallwch wneud cais i ni fel rhiant/warcheidwad am gopi o'r adroddiad. Rydym yn falch iawn o ganfyddiadau Estyn bod perfformiad presennol yr ysgol yn dda a bod ein rhagolygon i wella yn dda. Nodir yn glir yn ôl tri chwestiwn allweddol Estyn hefyd fod safonau yn yr ysgol yn gyson dda.

Cyfeiria'r adroddiad hefyd at:

- gyrhaeddiad uwch na'r disgwyliadau cenedlaethol yn Ysgol Tryfan yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a'r Chweched Dosbarth.
- safonau ymddygiad uchel y disgyblion a'u hagwedd gadarnhaol at eu gwaith
- gwricwlwm eang a chytbwys yr ysgol yng Nghyfnod Allweddol 4 a 5

Cymerwn gryn foddhad yn ogystal wrth weld Estyn yn nodi:

- bod Ysgol Tryfan yn ysgol "yn hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion yn llwyddiannus iawn".
- bod cynnydd disgyblion yn y Gymraeg yn gryfder yn yr ysgol. Mae llwyddiant y cynllun trochi ieithyddol ar gyfer nifer cynyddol o ddisgyblion yn gryfder arwyddocaol.

Mae'r Llywodraethwyr, y staff a'r disgyblion yn falch o sylwadau cadarnhaol yr Arolygwyr ac yn cynllunio yn awr i ymateb i'w argymhellion a gwella ymhellach er mwyn sicrhau'r safonau uchaf posibl i bawb sy'n rhan o fywyd yr ysgol.

Cyn cloi hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i atgoffa rhieni fod ein partneriaeth yn allweddol i lwyddiant yr ysgol - a bod sicrhau fod disgyblion yn dilyn rheolau'r ysgol o ran gwisg ac ymarweddiad yn hollbwysig er mwyn rhediad unrhyw ysgol llwyddiannus. Felly dros y Nadolig dylid gwarantu nad yw disgyblion yn prynu gwisg ysgol nad yw'n cydymffurfio â'n rheolau - yn arbennig dylid cofio ein bod yn disgwyl esgidiau du plaen a throwsus du plaen nad yw'n dracwisg, jîns nac yn 'leggings'. Yn yr un modd ni ddylai unrhyw ddisgybl ddychwelyd i'r ysgol gyda thlysau amhriodol - rydym yn y llawlyfr yn nodi ein bod yn caniatáu un clustdlws syml ym mhob clust.

Gyda hynny o eiriau hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch sy'n rhan o deulu estynedig Ysgol Tryfan. Bydd staff a disgyblion yn cychwyn yn ôl yn yr Ysgol fore Llun, Ionawr 6ed 2014.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
pennaeth@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

